Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Atebolrwydd Aelodau Unigol – Adalw

## Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Chwefror 2025

Cyhoeddodd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ei adroddiad ar Adalw ar 23 Ionawr 2025. Roedd yr adroddiad yn cynnwys naw argymhelliad i Lywodraeth Cymru. Lluniwyd yr adroddiad yn rhan o ymchwiliad y Pwyllgor i Atebolrwydd Aelodau Unigol. Gwnaeth yr ymchwiliad hefyd ystyried y mater yn ymwneud â thwyll bwriadol, sy'n destun adroddiad ar wahân gan y Pwyllgor.

Mae ymatebion Llywodraeth Cymru i'r argymhellion gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawniwedi'u cynnwys isod.

Bydd goblygiadau ariannol yr argymhellion a'r dewisiadau polisi ehangach yn cael eu hystyried yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Bil a byddant yn cael sylw manwl yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

# Ymatebion i'r argymhellion

## Argymhelliad 1

*Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth i gyflwyno system adalw erbyn 2026, mewn pryd ar gyfer y Seithfed Senedd.*

Ymateb: Derbyn

Byddaf yn cyflwyno Bil yn ystod y Senedd bresennol a fydd yn sefydlu system adalw. Mae datblygu deddfwriaeth sylfaenol, ei drafftio, craffu arni a'i phasio cyn diddymu, a hynny mewn ychydig dros flwyddyn, yn her sylweddol, ond yn un, os mai dyna yw dymuniad y Senedd, y bydd y Llywodraeth yn ceisio ei chyflawni.

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi, er y dylai'r amserlen hon ganiatáu i ddeddfwriaeth sylfaenol gael ei rhoi ar waith, er ar fyrder, ni fyddai'n galluogi'r gwaith dilynol o ran datblygu a phasio is-ddeddfwriaeth neu unrhyw ganllawiau gan y Pwyllgor a fyddai eu hangen cyn i'r system gael ei gweithredu'n llawn.

Er y bydd pasio deddfwriaeth sylfaenol yn ystod y Senedd hon yn gyflawniad pwysig, bydd angen bwrw ymlaen yn ddi-oed â'r gwaith o'i gweithredu'n llawn yn ystod y Seithfed Senedd.

## Argymhelliad 2

*Mae'r Pwyllgor yn argymell bod gan y system adalw – a gyflwynwyd ar gyfer y Senedd – un cam sy'n gofyn am ethol cwestiwn yn seiliedig ar yr egwyddor o gadw'r Aelod, neu ei ddiswyddo a'i ddisodli gan yr ymgeisydd nesaf ar restr ei blaid yn etholiad diwethaf y Senedd.*

Ymateb: Derbyn

Caiff y cynnig ar gyfer proses un cam sy'n rhoi'r opsiwn i'r etholwyr ddiswyddo (neu beidio) yr Aelod o dan sylw ei gefnogi'n llawn gan y Llywodraeth hon.

Yn yr un modd â'r system gyfatebol yn San Steffan (lle mai cynnal is-etholiad yw'r broses safonol ar gyfer llenwi seddi gwag, gan gynnwys y rhai a grëwyd drwy adalw llwyddiannus), dylai'r system adalw yma yng Nghymru ddarparu ar gyfer diswyddo Aelod, ac yna defnyddio prosesau presennol ar gyfer llenwi'r sedd wag honno.

O dan y system etholiadol newydd, y person cymwys nesaf ar restr plaid yr etholaeth fyddai'n llenwi'r sedd wag, neu os na fyddai person o'r fath yn bodoli, byddai'r sedd yn aros yn wag. Mae defnyddio'r system 'ddiofyn' ar gyfer seddi gwag yn golygu na fydd angen datblygu system bwrpasol i lenwi seddi gwag a gaiff eu creu gan system adalw.

## Argymhelliad 3

*Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Comisiwn Etholiadol i ddatblygu papur pleidleisio sy'n cyflwyno'r wybodaeth mewn modd sy'n glir ac yn hawdd ei deall.*

Ymateb: Derbyn

Mae gan y Comisiwn Etholiadol safle pwysig yn ein tirwedd etholiadol a bydd ei gyfraniad at ddatblygu'r cynigion hyn yn hanfodol.

Yn arbennig, byddwn yn ceisio gweithio'n agos gyda'r Comisiwn i ddatblygu'r rheolau sy'n ymwneud â'r papur pleidleisio. Mae'r rhain yn debygol o gael eu nodi mewn is-ddeddfwriaeth, fel ag y maent ar gyfer etholiadau cyffredinol i'r Senedd, yn hytrach nag yn y Bil.

## Argymhelliad 4

*Mae'r Pwyllgor yn argymell, o ystyried y broses a amlinellwyd gan y Pwyllgor, y dylid cyfeirio ato fel 'pleidlais diswyddo a disodli' yn hytrach nag adalw.*

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae'r Pwyllgor yn tynnu sylw at bryder pwysig o ran drysu pleidleiswyr, a byddai'r defnydd o "ddeiseb adalw" yn ddryslyd ac yn anghywir, gan ystyried natur y broses arfaethedig.

Fodd bynnag, efallai na fyddai "pleidlais diswyddo a disodli" yn rhoi digon o eglurder, gan na fydd y broses ei hun yn ymwneud â disodli – a fydd yn cael ei chynnal drwy'r prosesau arferol – ac na fyddai'n digwydd ym mhob achos, er enghraifft, pe bai'r rhestr plaid wedi'i disbyddu, neu os mai ymgeisydd unigol a gaiff ei adalw.

Er bod dealltwriaeth gyffredin ymhlith etholwyr ynghylch "adalw" fel ffordd o ddiswyddo cynrychiolydd, nodwn gasgliad y pwyllgor nad yw hyn yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer egluro'r broses arfaethedig.

Byddwn yn ystyried y mater hwn ymhellach yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Bil.

## Argymhelliad 5

*Mae'r Pwyllgor yn argymell bod deddfwriaeth yn cael ei drafftio i roi'r gallu i'r Senedd i adalw Aelod fel sancsiwn ar ei ben ei hun.*

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae barn y Pwyllgor am y dull gorau ar gyfer caniatáu i'r Senedd osod sancsiwn ar Aelodau y canfyddir eu bod wedi disgyn ymhell islaw ymddygiad disgwyliedig yn werthfawr iawn, tra eu bod hefyd yn bodoli ochr yn ochr â'r ystod o safbwyntiau sydd wedi'u rhannu gan randdeiliaid a'r cynsail sy'n bodoli yn y DU.

Gallai'r hyblygrwydd ychwanegol y byddai'r dull hwn yn ei roi, o'i gymharu â gweithdrefnau llym yn seiliedig ar atal am gyfnod penodol, helpu i liniaru rhai o'r pryderon sydd wedi'u codi yn ystod sesiynau tystiolaeth y Pwyllgor.

Fodd bynnag, mae sancsiwn adalw ar ei ben ei hun yn gwyro'n sylweddol o'r system sydd ar waith ar gyfer Senedd y DU ac o'r system arfaethedig sy'n cael ei hystyried mewn perthynas â Senedd yr Alban. Bydd angen ystyried y mater yn ofalus i sicrhau bod goblygiadau posibl system o'r fath yn cael eu hystyried yn briodol.

Dyna'r rheswm pam fy mod wedi derbyn mewn egwyddor yr argymhelliad am sancsiwn ar ei ben ei hun yn ogystal â chanllawiau (gweler argymhelliad 6), ac rwyf wedi cyfarwyddo fy swyddogion i barhau i archwilio ffyrdd o gyflawni hyn.

## Argymhelliad 6

*Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r ddeddfwriaeth ei gwneud yn ofynnol, yn y Rheolau Sefydlog, i'r pwyllgor cyfrifol lunio canllawiau ar gymhwyso'r broses adalw, gan gynnwys materion a allai arwain at adalw'n awtomatig (os na chaiff ei gynnwys ar wyneb y bil). Dylai'r canllawiau hyn fod yn amodol ar bleidlais gan y Senedd.*

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae'r cynnig i baru sancsiwn adalw ar ei ben hun â set o ganllawiau yn un yr wyf yn gefnogol ohono. Mae'n bwysig i'r Aelodau ddeall canlyniadau tebygol eu gweithredoedd ac, yn yr un modd ag unrhyw broses o'r fath, y caiff sancsiynau eu cymhwyso'n deg ac yn gyson ar draws yr ymchwiliadau a gynhelir i ymddygiad Aelodau.

Mae hefyd yn bwysig cytuno ar ganllawiau o'r fath, a'u bod felly yn eiddo i'r Senedd ei hun, ac mae argymhelliad y Pwyllgor ynghylch cynnal pleidlais i'w groesawu.

Bydd union statws canllawiau o'r fath, a'r gweithdrefnau ar gyfer eu datblygu a chytuno arnynt yn parhau i gael eu hystyried ymhellach yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Bil.

Gan y bydd sbardunau awtomatig, o reidrwydd, yn cynrychioli'r camweddau mwyaf clir a dybryd, ceir angen ychwanegol am sicrwydd, gan gynnwys sicrwydd cyfreithiol, ac eglurder. Rwyf felly'n bwriadu ystyried a yw dedfryd o garchar sy'n is na'r trothwy gwahardd yn cyfiawnhau cynnwys sbardun awtomatig ar wyneb y Bil, sy'n opsiwn y mae'r argymhelliad yn ei rag-weld.

Bwriad y dull a amlinellir uchod yw darparu'r hyblygrwydd a pharatoi at y dyfodol y mae'r Pwyllgor wedi nodi sy'n bwysig, fodd bynnag, mae'n rhy gynnar ymrwymo i'r union ffurf y bydd angen ei chymryd er mwyn bod yn effeithiol.

## Argymhelliad 7

*Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y broses adalw'n cael ei chynnal ar un diwrnod mewn proses debyg i is-etholiad, gyda digon o sylw i orsafoedd pleidleisio a dim trothwy o ran y nifer sy'n pleidleisio. Dylai pleidleisio drwy'r post a thrwy ddirprwy fod ar gael fel rhan o'r broses hon.*

Ymateb: Derbyn

Bydd proses un diwrnod sy'n debyg i etholiad cyffredinol i'r Senedd, fel ag sy'n ymarferol, lle rhoddir blaenoriaeth i gymryd rhan yn ddidrafferth, yn gwella'r sail ddemocrataidd o ran adalw.

Er y bydd angen ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn arbennig â'r gweinyddwyr hynny sy'n hanfodol i redeg gorsafoedd pleidleisio yn effeithiol, mae proses gyfarwydd, sy'n sicrhau'r nifer uchaf o bleidleiswyr yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon. Mae hynny'n cynnwys yr opsiynau amgen arferol ar gyfer pleidleisio drwy'r post a phleidleisio drwy ddirprwy.

Er y bydd yn bwysig annog nifer uchel o bleidleiswyr mewn pleidleisiau adalw, byddai peidio â chael trothwy o ran y nifer sy'n pleidleisio ar gyfer pleidlais ddilys yn helpu i sicrhau bod y canlyniad yn cyd-fynd â disgwyliadau pleidleiswyr yn etholiadau Cymru.

## Argymhelliad 8

*Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori â gweinyddwyr etholiadol – a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb – ar oblygiadau ymarferol cynnal pleidlais adalw ar un diwrnod ar draws nifer o orsafoedd pleidleisio mewn etholaeth.*

Ymateb: Derbyn

Fel y nodwyd yn fy ymateb i'r argymhelliad blaenorol, bydd ymgysylltu â'r rhai a fydd yn gyfrifol am gynnal y rhan helaeth o'r broses pleidlais adalw yn hanfodol ar gyfer datblygu system adalw effeithiol.

Byddwn yn sicrhau bod ymgysylltu o'r fath yn digwydd, gan hefyd ystyried yr amser sydd ar gael i basio deddfwriaeth sylfaenol, yn ystod y Senedd bresennol. Efallai y bydd hyn yn gofyn am ddulliau ymgysylltu arloesol, a byddwn yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i gyflawni hyn.

## Argymhelliad 9

*Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r gymuned etholiadol i wneud yn siŵr bod y wybodaeth a anfonir ynghylch adalw'n hysbysu pleidleiswyr yn glir o'r rheswm dros adalw, a'r opsiynau sydd ar gael iddynt.*

Ymateb: Derbyn

Bydd yn bwysig bod y rhai sy'n pleidleisio mewn pleidlais adalw yn gallu cael gafael ar wybodaeth berthnasol er mwyn pleidleisio mewn modd ar sail gwybodaeth.

Mae manylion o ran pa wybodaeth y dylid ei rhannu â phleidleiswyr a sut y dylid gwneud hynny yn gofyn am ystyriaeth ofalus a chydweithio agos â rhanddeiliaid, fel yr argymhellir gan y Pwyllgor.